**Rhif: 45208**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adnewyddu Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022 - 2026

Mai 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 1 978-1-80364-301-4

## Trosolwg

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn 2016. O dan Adran 3 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, rhaid i'r Strategaeth Genedlaethol gael ei hadolygu a'i diweddaru yn dilyn etholiadau'r Senedd.
Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Strategaeth ddrafft rhwng 7 Rhagfyr 2021 a 7 Chwefror 2022. Mae'r ddogfen hon yn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad.

## Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ebost: VAWDASV@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a'r copïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad: Strategaeth Genedlaethol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV

## Cynnwys

Cyflwyniad ..... 1
Ymgynghori ..... 1
Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad ..... 2
Prif negeseuon ..... 3
Crynodeb o’r ymatebion ..... 4
Ymateb Llywodraeth Cymru ..... 15
Camau nesaf ..... 15
Atodiad 1: Rhestr o’r ymatebwyr ..... 16

## Cyflwyniad

1. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer ymgynghori. Y strategaeth hon fydd yr ail i'w chyhoeddi o dan y ddyletswydd a bennwyd gan ddeddfwriaeth arloesol Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn pennu'r ffordd o weithio i'w mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, a etholwyd ym mis Mai 2021. Bydd yn cynnwys y cyfnod hyd at ddiwedd y weinyddiaeth hon yn 2026.

2. Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol sy'n nodi amcanion a chamau gweithredu i gyflawni dibenion y Ddeddf: atal, amddiffyn a chefnogi.

3. Ein gweledigaeth yw rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Nid yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn anochel. Mae'n ymwneud â mwy nag 'ymddygiadau' unigolion sy'n galluogi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n ymwneud â normau, agweddau a chredoau yn ein cymdeithas y mae'n rhaid eu herio, oherwydd y pethau hyn sy'n cynnal, esgusodi a chyfiawnhau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

4. Mae Cymru wedi cyflawni sawl peth wrth fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac mae gennym bob hawl i fod yn falch o hyn. I fod yn falch o'r awdurdodau cyhoeddus sydd wedi gweithio'n ddiflino i greu awyrgylch lle y caiff trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ei herio. Yn falch o'r partneriaid cyflawni sy'n cynnig cefnogaeth drwy wasanaethau ymatebol sy'n seiliedig ar werthoedd. Yn falch o'r goroeswyr sydd wedi codi eu llais a rhannu eu safbwyntiau er mwyn helpu eraill drwy lywio'r ffordd yr ydym ni, fel cyrff datganoledig ac annatganoledig, yn gwella gyda'n gilydd.

5. Mae rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn her gymhleth. Bwriedir i hon fod yn strategaeth ar gyfer Cymru gyfan sy'n diffinio ac yn arwain y ffordd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n strategaeth ar gyfer awdurdodau cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n nodi blaenoriaethau i greu ymdeimlad cyffredin o ymdrechu tuag at nodau a rennir. Mae hefyd yn strategaeth ar gyfer byd busnes a chymdeithas yn ehangach, er mwyn gwneud newidiadau i normau, ymddygiadau a diwylliannau sy'n hanfodol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau. Nod y Strategaeth yw rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac felly mae'n rhaid mabwysiadu dull gweithredu amlasiantaethol ac amlddisgyblaethol sy'n rhoi lle canolog i leisiau arbenigwyr, dioddefwyr a goroeswyr.

## Ymgynghori

6. Ar 7 Rhagfyr 2021, cyhoeddwyd Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ddrafft gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, ar gyfer ymgynghori. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu barn ac adborth ar:

- Ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac
- Egwyddorion ein dull gweithredu, gan gynnwys y ffordd y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid.

7. Dechreuodd ymgynghoriad naw wythnos ar 7 Rhagfyr 2021 ac roedd ar agor ar gyfer ymatebion tan 7 Chwefror 2022. Cafodd ymatebwyr gyfle i ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post. Roedd y ddogfen ymgynghori, ynghyd â fersiwn hawdd i'w darllen a fersiwn i bobl ifanc, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd y fersiwn ymgynghori ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys cyfres symlach o gwestiynau ymgynghori.

8. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy sesiwn wybodaeth ar-lein i roi trosolwg o'r Strategaeth ddrafft, ei nodau a'i dull gweithredu arfaethedig ar gyfer sefydliadau partner.

9. Cynhaliodd nifer o sefydliadau partner weithgarwch ymgysylltu â'u defnyddwyr gwasanaeth a'u staff i sicrhau bod barn y rhai sy'n gweithio yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a lleisiau goroeswyr yn cael eu clywed. Roedd rhywfaint o'r gweithgarwch ymgysylltu hwn wedi'i dargedu at bobl ifanc, gan ddefnyddio fersiwn y bobl ifanc o'r ymgynghoriad a chwestiynau ymgynghori symlach.

10. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r sefydliadau hynny a fu'n ymwneud â gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol yn ystod yr ymgynghoriad.

## Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad

11. Cawsom 125 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad a 5 ymateb arall i gwestiynau'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer Pobl Ifanc. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd.

12. Ceir rhestr o ymatebwyr, ac eithrio'r rhai a ofynnodd am gael bod yn anhysbys, yn Atodiad 1. Pan fo ymatebwyr wedi gofyn i'w manylion gael eu dal yn ôl, nodir eu hymateb fel un 'Dienw' i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Yn ogystal, cafwyd nifer fach o ymatebion lle nad oedd unrhyw enw na sefydliad wedi'i gynnwys.

13. Roedd yr ymatebwyr yn cynrychioli amrywiaeth o gyrff yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol fel undebau llafur, ac unigolion. Cafwyd cyfran uchel o ymatebion gan y rhai sy'n gweithio yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sy'n oroeswyr neu deulu/ffrindiau goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl math.

| Math | Nifer |
|---|---|
| Sector cyhoeddus (awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ati) | 39 |
| Unigolion | 31 |

| Math | Nifer |
|---|---|
| Y trydydd sector | 16 |
| Cyrff Cynrychioliadol | 15 |
| Sefydliadau'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 11 |
| Anhysbys | 6 |
| Y byd academaidd | 5 |
| Sector preifat | 2 |

## Y Prif Negeseuon

14. Cafwyd nifer o themâu a ddaeth i'r amlwg mewn ymatebion i fwy nag un o gwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pwysigrwydd clywed llais goroeswyr ar bob lefel mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau, yn ogystal â thrwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a'i is-grwpiau;
- Galw am roi mwy o bwyslais ar anghenion plant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ;
- Pryderon bod dioddefwyr hŷn Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu hoedran a gofyn am fwy o ymwybyddiaeth o raddau ac effaith Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y grŵp oedran hwn;
- Roedd galwadau am weithredu cryfach yn erbyn cyflawnwyr yn cael eu cydbwyso gan alwadau am wasanaethau i'r rhai sy'n cyflawni, neu sydd mewn perygl o gyflawni, i'w dargyfeirio drwy addysg a chymorth;
- Yr angen am fwy o fanylion am sut y bydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a'i is-grwpiau yn gweithredu, yn enwedig mewn perthynas ag aelodaeth, cysylltiadau â strategaethau/cynlluniau trawsbynciol eraill a dyletswyddau;
- Parhau ac ehangu ar y dull amlasiantaethol o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dulliau ariannu mwy cyson, mwy o rannu data a gwasanaeth mwy di-dor i ddioddefwyr;
- Galw am gyllid mwy cyson, cynaliadwy a hir-dymor er mwyn caniatáu rhagor o gynllunio ar gyfer gwasanaethau a chadw staff arbenigol;
- Gwella ein gwybodaeth yn barhaus am yr hyn sy'n gweithio i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a hyrwyddo arfer da;
- Datblygu pecynnau cymorth i'w defnyddio i godi ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a helpu i fynd i'r afael â'i effeithiau mewn gwahanol sectorau/lleoliadau; a
- Galw am eglurder a thryloywder o ran y canlyniadau disgwyliedig a'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur cynnydd o ran cyflawni yn erbyn y Strategaeth;

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y negeseuon allweddol hyn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth fynd ati i Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026.

## Crynodeb o'r ymatebion

16. Mae'r holl ymatebion wedi'u hystyried a byddant yn llywio'r gwaith o gwblhau Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r cynlluniau ar gyfer ei chyflawni dros y cyfnod hyd at 2026.

17. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad (y brif ddogfen ymgynghori a’r fersiwn ar gyfer pobl ifanc). Mae hefyd yn ymgorffori'r adborth o sesiynau ymgysylltu â staff, defnyddwyr gwasanaethau, pobl ifanc a goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gynhaliwyd gan ein partneriaid. Nid yw'n anelu at gasglu pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Mae'n ceisio cyfleu'r themâu a'r materion a gododd dro ar ôl tro.

18. Codwyd nifer sylweddol o faterion sy'n fwy perthnasol i gyflawni'r Strategaeth nag i gwblhau'r Strategaeth ei hun. Bydd trosolwg o'r wybodaeth hon ar gael i'r rhai sy'n bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth. Nid yw'n cael ei ystyried yn yr adroddiad cryno hwn.

19. Gofynwyd un cwestiwn ar ddeg yn y ddogfen ymgynghori: roedd wyth yn chwilio am adborth cyffredinol a'r gweddill yn gofyn am ymatebion mwy manwl a pherthnasol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr, goroeswyr a chyflawnwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

20. Ni atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn. Rhoddodd rhai ymatebwyr a atebodd drwy e-bost ymatebion cyffredinol yn hytrach nag ateb y cwestiynau penodol. Yn yr achosion hyn, rydym wedi cynnwys eu hymateb o dan y cwestiwn mwyaf priodol. Yn yr un modd, rydym wedi ymgorffori adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu o dan y cwestiwn priodol.

21. Defnyddiodd 59 o ymatebwyr y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein i roi eu barn. Roedd y ffurflen ar-lein yn caniatáu i ymatebwyr gytuno neu anghytuno ond nid oedd yn caniatáu cytuno'n rhannol. Dewisodd nifer o ymatebwyr a roddodd ymatebion e-bost nad oeddent ar y templed ymateb safonol nodi eu bod yn cytuno'n rhannol â'r cwestiwn yn hytrach na rhoi ateb ie / na.

22. Gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebion gan unigolion wedi dod i law drwy'r ffurflen ymateb ar-lein, mae'n amlwg o'r rhesymau a roddwyd dros eu hatebion i nifer fawr o gwestiynau y gwnaethant ddewis anghytuno â hwy, bod hyn yn aml yn gysylltiedig ac anfodlonrwydd na chrybwyllwyd agwedd benodol sydd o ddiddordeb neu’n achos pryder iddynt yn hytrach na’u bod yn anghytuno â'r strategaeth mewn egwyddor.

23. Cafwyd nifer o ymatebion gan y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gododd bwyntiau tebyg iawn yn eu hymatebion ac a oedd yn dyfynnu’r un cyfeiriadau.

## Cwestiwn 1

**Rydym wedi nodi ein prif flaenoriaethau yn yr Amcanion. Ydych chi o'r farn mai dyma'r blaenoriaethau cywir?**

24. Roedd 74 yn cytuno'n llawn ac roedd 8 yn cytuno'n rhannol â'r prif flaenoriaethau fel y'u nodir yn Amcanion y Strategaeth, tra bod 15 yn anghytuno. Efallai fod ymatebwyr eraill wedi gwneud sylwadau, ond ni wnaethant ddatgan yn benodol eu bod yn cytuno nac yn anghytuno â'r blaenoriaethau.

25. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn gan ymatebwyr unigol neu'r rhai nad oeddent yn dweud pwy oeddent. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y nifer sy'n anghytuno oherwydd bod llawer o'r ymatebion hyn yn canolbwyntio'n gul iawn ar agweddau penodol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol nad oeddent yn ystyried eu bod wedi cael sylw digonol yn yr Amcanion.

26. O'r rhai a gytunodd yn rhannol – o ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost – roedd y mwyafrif gan sefydliadau yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gododd bryderon cyffredin am agweddau penodol ar y strategaeth.

27. Y themâu cyffredin oedd:
    - Diffyg cydgysylltu a rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol sefydliadau sy'n cefnogi goroeswyr ac oddi mewn iddynt;
    - Bydd addysg yn allweddol i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol drwy hyrwyddo perthnasoedd iach;
    - Galw am lai o Amcanion, ond rhai mwy penodol i ganolbwyntio sylw'n well ar yr hyn y mae angen ei wneud;
    - Mae angen mwy o gymorth i annog dioddefwyr i adael perthnasoedd camdriniol gan eu bod yn aml ynghlwm â'u camdrinwyr gan adnoddau ariannol neu'r diffyg cymorth sydd ar gael yn eu hardal leol.

28. Roedd rhai ymatebion yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer ail-eirio Amcanion, sydd wedi'u hystyried fel rhan o'r broses i ddiwygio a chwblhau'r Strategaeth. Fodd bynnag, penderfynwyd cadw'r geiriad a ddefnyddiwyd yn y ddogfen ymgynghori gan fod y rhain yn adlewyrchu parhad y cynnydd tuag at atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a ddechreuwyd o dan yr un amcanion yn y Strategaeth gyntaf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2016-2021. Byddwn yn nodi'r awgrymiadau ar gyfer newid yr amcanion fel rhan o'r dull o gyflawni amcanion y Strategaeth.

## Cwestiwn 2

**Ydych chi o'r farn mai'r dull gweithredu cyffredinol y byddwn yn ei ddefnyddio, fel y nodir yn yr adrannau ar y Glasbrint, yw'r un cywir i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ?**

29. Roedd 62 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr, 2 yn cytuno'n fras a 28 yn anghytuno â'r dull gweithredu cyffredinol, fel y'i nodir yn y Strategaeth.

30. O'r rhai a oedd yn anghytuno, un rheswm cyffredin dros anghytuno oedd yr alwad am fwy o fanylion am sut y byddai'r Strategaeth yn cael ei chyflawni a'i chynnydd yn cael ei monitro. Bydd y cam hwn o'r gwaith yn cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol newydd a'i is-grwpiau felly nid oedd yn briodol dyfalu ynghylch eu cynlluniau yn ystod yr ymgynghoriad.

31. Y themâu cyffredin oedd:
   - Pwysigrwydd llais goroeswyr wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, ac ar bob lefel yn y strwythurau llywodraethu arfaethedig;
   - Bydd addysg yn allweddol i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol drwy hyrwyddo perthnasoedd iach;
   - Rhaid herio ymddygiad corfforol a geiriol annerbyniol ym mhob lleoliad (nid yn yr ysgol yn unig) o oedran ifanc iawn;
   - Mae stereoteipiau'n niweidiol – boed yn y cyfryngau neu ymddygiad 'esgusodedig' (e.e. dim ond bechgyn yn bod yn fechgyn mewn ymateb i chwarae garw);
   - Mae angen mynd i'r afael ag ariannu anghyson ac anghynaliadwy
   - Mynediad anghyfartal at wasanaethau cymorth, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig
   - Yr angen am fwy o gyswllt rhwng gwasanaethau sy'n cefnogi goroeswyr, gan gynnwys rhannu gwybodaeth yn briodol.

32. Roedd y ymatebion yn cynnwys:
   - Yn galw am fwy o gydgysylltu ar draws ffrydiau ariannu (e.e. Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref ac ati) i ganiatáu gwasanaethau mwy cyson a chynaliadwy;
   - Pryder y gallai canolbwyntio ar aflonyddu yn y gweithle ac ar y stryd wanhau'r angen i fynd i'r afael ag ymddygiad amhriodol ym mhob lleoliad;
   - Bydd mwy o weithio trawsadrannol o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws sefydliadau partner yn gwella'r gallu i fynd i'r afael â ffactorau a all gynyddu tebygolrwydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (e.e. tai, digartrefedd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac ati).

## Cwestiwn 3

**Rydym wedi nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft. Ydych chi'n cytuno â'r hwy?**

33. Roedd 77 o ymatebwyr yn cytuno'n llwyr, 7 yn cytuno'n fras neu'n rhannol a 10 yn anghytuno â'r egwyddorion sy'n sail i'r Strategaeth. O'r rhai a oedd yn cytuno'n rhannol yn unig, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan sefydliadau sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol arbenigol a gododd faterion penodol ond a oedd yn cytuno'n gyffredinol â'r egwyddorion sy'n sail i'r Strategaeth.

34. Y themâu cyffredin oedd:
   - Sicrhau bod lleisiau'r goroeswyr yn cael eu clywed;

- Galw am fwy o ffocws ar blant fel dioddefwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol  – p'un a ydynt yn dioddef camdriniaeth neu'n byw mewn cartrefi lle mae cam-drin yn digwydd;
- Yr angen am well hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau rheng flaen gan fod rhagdybiaeth o hyd bod dynion yn gyflawnwyr ac nad yw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei ddeall na'i gydnabod yn dda mewn cysylltiadau a pherthnasoedd LGBTQ+ na rhwng pobl hŷn;
- Mwy o fuddsoddiad ar gyfer gweithio gyda'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau ac i ddarparu mwy o atgyfeirio at y cymorth sydd ar gael;
- Mae angen i aflonyddu yn y gweithle ganolbwyntio ar ddelio'n briodol â'r cyflawnwr yn ogystal â chefnogi'r dioddefwr;
- Mae angen cefnogi sefydliadau i ddelio â gweithwyr sy'n cyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y tu allan i'r gweithle.

35. Roedd y ymatebion yn cynnwys:
    - Galw am ragor o wybodaeth am sut y bydd y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cysylltu â strategaethau/cynlluniau a dyletswyddau eraill mewn perthynas â hil, LGBTQ+, hawliau dynol, hawliau plant;
    - Pwysigrwydd cael eich llywio gan brofiadau bywyd (goroeswyr) a gwerthuso'r hyn sydd wedi gweithio, yn ogystal â'r hyn nad yw wedi gweithio.

## Cwestiwn 4

**Ydych chi'n cytuno ag ein blaenoriaethau uniongyrchol?**

36. Roedd 63 o ymatebwyr yn cytuno, 9 yn cytuno'n rhannol ac 19 yn anghytuno â'r blaenoriaethau uniongyrchol a nodwyd yn y Strategaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r naw ymatebydd a oedd yn cytuno'n rhannol â'r blaenoriaethau uniongyrchol yn sefydliadau sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

37. Y themâu cyffredin oedd:
    - Yr angen am well hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau rheng flaen i annog dioddefwyr i ddod ymlaen a sicrhau eu bod yn deall anghenion dioddefwyr ac nad ydynt yn bychanu profiad dioddefwr (e.e. “dim ond tynnu coes oedd o”);
    - Datblygu deunyddiau hyfforddi/addysg a phecyn cymorth ar gyfer ymgysylltu (sy’n cydlynu â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol), ochr yn ochr â hyrwyddo modelau rôl 'normal' cadarnhaol;
    - Mae angen mwy o gymorth a rhaglenni ar gyfer cyflawnwyr, ynghyd â mwy o ffocws ar eu dal yn atebol a gorfodi'r gyfraith;
    - Galw am gyllid cynaliadwy mwy cydgysylltiedig, tymor hwy ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill – sy'n mynd i'r afael ag achosion posibl Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol  fel camddefnydd sylweddau, iechyd meddwl ac ati);

38. Roedd y ymatebion yn cynnwys:

- Pryderon a godwyd gan ymatebydd gwrywaidd am gael ei gyhuddo ar gam o ymddygiad amhriodol i'r graddau y mae wedi addasu ei arferion gwaith er mwyn osgoi hyn (e.e. peidio byth â bod ar ei ben ei hun mewn ystafell gyda menyw);

## Cwestiwn 5

**Beth yw'r peth pwysicaf y gallwn ni ei wneud i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn eich barn chi?**

39. Roedd 104 o ymatebwyr naill ai wedi ymateb i'r cwestiwn hwn neu roeddem yn gallu priodoli rhoi sylwadau mewn ymateb mwy cyffredinol i'r ymgynghoriad i'r cwestiwn hwn.

40. Y themâu cyffredin oedd:
    - Annog atal drwy roi mwy o bwyslais ar addysg mewn perthnasoedd iach drwy'r system addysg (mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran), gan gynnwys defnyddio hyn fel ffordd o dargedu ymwybyddiaeth / gwybodaeth i rieni;
    - Mwy o addysg / gwybodaeth i'r cyhoedd am bob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – iddynt herio ymddygiad annerbyniol ond hefyd i gydnabod y gallant fod yn dioddef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol eu hunain;
    - Yr angen am well dealltwriaeth o bobl hŷn fel dioddefwyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys cydnabod bod hyn ar wahân i 'gam-drin yr henoed' generig';
    - Herio stereoteipiau a modelau rôl anfoddhaol ym mhob math o gyfryngau (gan gynnwys pornograffi) a hyrwyddo modelau rôl cadarnhaol
    - Mae angen mwy o gydgysylltu rhwng gwahanol sefydliadau y mae rhaid i ddioddefwr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ymwneud â nhw, gan gynnwys mwy o rannu gwybodaeth;
    - Sicrhau bod digwyddiadau 'bach', fel gweiddi ar fenywod a merched ar y stryd, yn cael eu cymryd o ddifrif fel nad yw ymddygiad unigolyn yn gwaethygu'n Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
    - Ystyried ffyrdd priodol o herio gwahaniaethau diwylliannol a'u hatal rhag effeithio ar weithgarwch i fynd i'r afael â Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
    - Mwy o orfodaeth i ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, drwy gael rhagor o droseddwyr yn euog ond hefyd cynyddu rhaglenni cymorth;
    - Mwy o gyllid, tymor hwy a mwy cynaliadwy ar gyfer y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
    - Mwy o gyhoeddusrwydd i sut i gael cymorth os bydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn effeithio arnoch a pha gymorth all fod ar gael (ariannol, tai, gofal plant ac ati).

## Cwestiwn 6

**Ydych chi o'r farn bod unrhyw beth y dylem fod yn ei wneud fel rhan o'r Strategaeth hon a all gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**

41. Cyflwynodd 68 o'r ymatebwyr ateb i y cwestiwn hwn. Yn ogystal, nododd nifer fach o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi sylwadau defnyddiol gan nad oeddent yn siarad Cymraeg eu hunain. Roedd dau ymatebydd hefyd a ofynnodd a oedd y cwestiwn hwn o ddifrif neu a awgrymodd ei fod yn amherthnasol gan y byddai "hyd yn oed ymosodwr Cymraeg ei iaith yn deall y gair NA".

42. Y themâu cyffredin oedd:
    - Mae unigolion sy'n profi trawma, fel Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn fwy tebygol o ddatgelu gwybodaeth yn eu prif iaith a byddant yn cael mwy o fudd o wasanaethau cymorth yn eu prif iaith;
    - Yr angen i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n deg ac yn gyfartal yn y Gymraeg;
    - Dylai deunyddiau dwyieithog fod ar gael bob amser ond mae angen sicrhau bod mwy o siaradwyr Cymraeg ar gael i ddarparu cymorth;
    - Ymholiadau am ddarparu gwasanaethau (gan gynnwys yn ystod achosion Llys) mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain;
    - Yr angen i werthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol hefyd;
    - Pryderon am y goblygiadau o ran cost i sefydliadau'r trydydd sector o ddarparu gwasanaethau dwyieithog (ar gyfer cyfieithu yn ogystal â staff sy'n siarad Cymraeg) – dylid ystyried hyn wrth ddyfarnu cyllid.

43. Roedd y ymatebion yn cynnwys:
    - Gall cael cymorth mewn iaith arall achosi i'w profiad o drawma a cham-drin gael ei brisio'n anfwriadol yn rhy isel, gan arwain at brosesau asesu ac asesu risg a allai fod yn anghywir;
    - Mae angen gwerthfawrogi y bydd y galw am wasanaethau Cymraeg yn is mewn rhai ardaloedd ac y dylid darparu gwasanaethau fel y bo'n briodol ar gyfer yr ardal;
    - Pryderon ynghylch denu siaradwyr Cymraeg i swyddi â chyflogau is;
    - Amharodrwydd posibl i ddefnyddio gwasanaethau cymorth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol am nad ydynt ar gael yn newis iaith unigolyn;
    - Mwy o gyfleoedd ar gael i staff mewn sefydliadau sector cyhoeddus gael eu cefnogi i ddysgu Cymraeg a mwy o hyrwyddo'r cyfleoedd hynny.

## Cwestiwn 7

**A oes unrhyw beth arall y dylem fod yn ei wneud i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eich barn chi, neu oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?**

44. Atebodd 91 o ymatebwyr y cwestiwn hwn neu cafwyd sylwadau cyffredinol yr oeddem yn gallu eu priodoli i'r cwestiwn hwn.

45. Y themâu cyffredin oedd:
    - Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar oedolion – mae angen gwneud mwy i gynnwys plant (gan gynnwys plant a babanod ifanc iawn) ac yn arbennig i

ganolbwyntio ar ferched yn ogystal â menywod o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

- Mae angen mwy o ffocws ar strategaethau ataliol a ffactorau risg i leihau'r perygl y bydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn digwydd;
- Cynyddu perchnogaeth dynion a pherchnogaeth ddiwylliannol a chydnabod ymddygiadau nad ydynt yn iach drwy gefnogi a grymuso unigolion a chymunedau;
- Mae ymgysylltu a chyfathrebu yn hanfodol bwysig - cynnal ymgyrchoedd am gyfnod hwy, esbonio'r gwahanol fathau o ymddygiad camdriniol a sicrhau bod deunyddiau ar gael mewn amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen (gyda lluniau/darluniau);
- Gall cyflawnwyr barhau i aflonyddu ar ddioddefwr yn ystod y broses cyfiawnder troseddol (e.e.drwy'r cyfryngau cymdeithasol) felly mae angen cymorth parhaus ar ddioddefwyr a dwyn mwy o gyflawnwyr sy'n ymgymryd â'r ymddygiad hwn i gyfrif;
- Galw am ragor o fuddsoddi mewn rhaglenni cyflawnwyr, dedfrydu cyflawnwyr yn fwy llym, gan gynnwys gofyniad i gwblhau rhaglen newid ymddygiad briodol;
- Pwysigrwydd cefnogi'r Strategaeth gyda digon o adnoddau i sicrhau ei bod yn llwyddo;
- Model ariannu cynaliadwy, tymor hwy ar gyfer y sector i ganiatáu recriwtio a chadw staff arbenigol a gwariant cyfalaf ar gyfer llety â chymorth / lloches, yn ogystal â gwasanaethau a ariennir yn ddigonol ar gyfer cyflawnwyr, dioddefwyr a goroeswyr;
- Galw am gydweithio â chynrychiolwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys eglwysi, mosgiau ac ati gan fod menywod sydd â phrofiad byw â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn fwy tebygol o geisio cymorth / cefnogaeth o fewn eu cymunedau;
- Pwysigrwydd gweithio ar draws y Llywodraeth a mwy o gydgysylltu rhwng sefydliadau partner (i dargedu ffactorau fel mynd i'r afael â thlodi, camddefnyddio sylweddau, tai, digartrefedd, iechyd meddwl ac ati);
- Ymrwymiad parhaus i waith ymchwil, gwerthuso a monitro perfformiad.

46. Roedd y ymatebion yn cynnwys:

- Ei gwneud hi'n haws i bobl rannu eu straeon a pheidio â theimlo cywilydd fel petaent ar fai – tynnu stigma allan o gael eich cam-drin a mynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflawni cam-drin drwy ei wneud yn annerbyniol i'r gymdeithas (yn yr un ffordd ag yfed a gyrru, ysmygu dan do, ac ati);
- Mae syniadau ynghylch diogelwch mewn mannau cyhoeddus yn cael eu heffeithio gan broblemau fel lefelau annigonol / llai o oleuadau stryd, lleihau'r ddarpariaeth teledu cylch cyfyng, yr angen am well trafnidiaeth gyhoeddus a mannau cyhoeddus sydd wedi'u goleuo'n wael;
- Dylai staff mewn tafarndai, clybiau ac ati gael eu hyfforddi i fod yn fwy ymwybodol o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol posibl a rhoi mwy o gymorth i'r rhai a allai gael eu targedu;
- Pryder am effaith chwarae gemau cyfrifiadurol ar-lein, eithafiaeth a radicaleiddio drwy hyrwyddo, neu ddatblygu, casineb at fenywod (gan

gynnwys y cynnydd yn yr mewn ymddygiadau a elwir yn rhai “blaidd unig” neu INCEL);
- Pryder ynghylch newidiadau posibl i fynediad i fannau un rhyw sy'n galluogi dioddefwyr i deimlo'n ddiogel, o ganlyniad i ganiatáu hunanhawlio hunaniaeth - un opsiwn fyddai datblygu gwasanaethau ar wahân ar gyfer menywod trawsryweddol, a allai adlewyrchu eu hanghenion;
- Pryderon ariannol i ddioddefwyr a goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n cael eu gwneud yn waeth gan broblemau gyda systemau budd-daliadau Llywodraeth y DU;
- Angen rhoi cymorth i'r rhai sy'n cael eu hecsbloetio'n rhywiol ac i'r rhai nad oes ganddynt Hawl i Gael Arian Cyhoeddus
- Mwy o eglurder ynghylch y cysylltiadau rhwng Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Strategaeth Genedlaethol Cam-drin Plant yn Rhywiol;
- Mae nifer o gamau y gellid eu cymryd mewn lleoliadau addysg;
- Galw am ymdrin ag achosion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gyflym yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn diogelu dioddefwyr yn well.

## Cwestiwn 8

**Sut y dylem fesur cynnydd a llwyddiant wrth gyflawni'r pethau a amlinellir yn y Strategaeth hon?**

47. Cyflwynodd 99 o'r ymatebwyr ateb i y cwestiwn hwn.

48. Y themâu cyffredin oedd:
    - Rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol fod yn gyfrifol dros gyflawni yn erbyn y Strategaeth ac yn atebol am hynny;
    - Datblygu a chyhoeddi mesurau canlyniadau clir, data sylfaenol a chynllun gwireddu manteision;
    - Sicrhau bod dulliau mesur canlyniadau a dangosyddion perfformiad yn gydnaws â'r dystiolaeth sy'n ofynnol gan strategaethau/cynlluniau eraill i leihau'r baich ar sefydliadau wrth gasglu data;
    - Sicrhau bod data, gan gynnwys data cydraddoldeb, yn cael eu cofnodi a'u hadrodd ar draws yr holl sefydliadau partner a darparwyr gwasanaethau;
    - Mae data ansoddol yr un mor bwysig â data meintiol;
    - Rhaid i bob sefydliad partner fod yn atebol am gyflawni yn erbyn y Strategaeth – ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
    - Cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion sy'n seiliedig ar y boblogaeth (sy'n cynnwys plant a phobl ifanc) i sicrhau bod gan wasanaethau a gomisiynir y capasiti angenrheidiol;
    - Sicrhau bod gan unrhyw ymgyrch gyfathrebu a'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fesurau gwerthuso cadarn;
    - Sicrhau bod y cwricwlwm Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb newydd yn cael ei werthuso mewn ysgolion – ei effaith ac nid y modd y’i cyflwynir yn unig;
    - Gofyn am adborth gan gymunedau ynghylch a ydynt yn teimlo'n fwy diogel;

- Ni ddylid defnyddio data Troseddu a'r Swyddfa Gartref fel yr unig fesur o ystyried nifer yr achosion o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol nas cofnodwyd;
- Dylid cynnal unrhyw adolygiad o Ddangosyddion Cenedlaethol mewn cydweithrediad â goroeswyr a'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol arbenigol;
- Casglu data ar agweddau a chredoau pobl ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac achosion o aflonyddu rhywiol.

49. Roedd y ymatebion yn cynnwys:
    - Pryder ei bod yn ymddangos mai prin yw'r gwerthusiad o Strategaeth 2016-2021 – mae angen meddwl am y gorffennol yn ogystal â chreu strategaethau gwerthuso newydd;
    - Angen am system adrodd amlasiantaethol, y gall pawb sy'n gysylltiedig â'r asiantaethau dan sylw gael mynediad ati a'i gweld, drwy bob awdurdod lleol yng Nghymru;
    - Gwnaed awgrymiadau hefyd ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol.

## Cwestiwn 9

**Ydych chi'n cytuno â chwmpas y Strategaeth?**

50. Roedd 74 o ymatebwyr yn cytuno, 2 yn cytuno'n rhannol ac 8 yn anghytuno â chwmpas y Strategaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r wyth ymatebydd a oedd yn anghytuno â chwmpas y strategaeth yn unigolion.

51. Y themâu cyffredin oedd:
    - Galw am gydnabyddiaeth o’r cynnydd a wnaed eisoes ers Deddf 2015 gael ei chynrychioli’n well yn y Strategaeth hon
    - Mae angen cyfeiriad mwy penodol at ferched (yn hytrach na menywod yn unig) ac at blant a phobl ifanc yn gyffredinol;
    - Mae angen mwy o ffocws ar drais rhywiol – ar hyn o bryd mae'n ymddangos bod y Strategaeth yn canolbwyntio mwy ar gam-drin domestig;
    - Mae angen mwy o gyfeirio at ffactorau sy'n gysylltiedig ag achosion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol megis camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac ati;
    - Ymgorffori argymhellion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu pob Ffurf o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW) i Lywodraeth y DU a’r Llywodraethau datganoledig er mwyn cymryd camau effeithiol i sicrhau bod menywod mewn sefyllfaoedd bregus yn cael mynediad effeithiol at gyfleoedd cyflogaeth, tai a nawdd cymdeithasol.

52. Roedd y ymatebion yn cynnwys:
    - Galw am fwy o ffocws ar anghenion pobl hŷn;
    - A ddylai'r ffocws fod ar fynd i'r afael â'r problemau presennol cyn ychwanegu pethau newydd (fel aflonyddu ar y stryd a'r gweithle) sydd mewn perygl o wanhau'r ddarpariaeth os nad oes arian ychwanegol ar gael;
    - Cydnabod mai’r gamdriniaeth sy'n diffinio cwmpas y strategaeth hon, nid rhywedd neu fel arall y cyflawnwr na'r goroeswr sy’n bwysig;

- Rhaid i ddynion fod yn rhan o'r ateb ar bob lefel;
- Mae angen mwy o gymorth i ddioddefwyr er mwyn osgoi tynnu achosion troseddol yn ôl yn dilyn pwysau gan y cyflawnwr;
- Mae angen i unrhyw raglen addysg fod yn fwy eang na dull ysgol gyfan o sesiynau ymwybyddiaeth a dylai gael ei chysylltu ag asiantaethau cymorth lleol;
- “Nid diogelwch menywod yw'r broblem ond trais gwrywon”.

## Cwestiwn 10

**Rydym wedi cynnig trefniadau llywodraethu, sy'n cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner allweddol a nifer o is-grwpiau/ffrydiau gwaith, i fynd i'r afael â materion penodol? Ydych chi o'r farn y bydd cydweithio yn y ffordd hon yn helpu i gydgysylltu'r gwaith o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn well?**

53. Roedd 69 o ymatebwyr yn cytuno, 7 yn cytuno'n rhannol a 15 yn anghytuno â'r trefniadau llywodraethu arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno'n rhannol â'r trefniant llywodraethu arfaethedig yn sefydliadau Sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

54. Y themâu cyffredin oedd:
    - Yn galw ar y Gweinidogion Addysg ac Iechyd i fod yn aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol;
    - Tryloywder wrth benodi / cytuno ar aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol;
    - Mae gennym hanes da yng Nghymru o gydweithio a defnyddio dulliau amlasiantaethol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol – rhaid parhau â hyn a'i wella ymhellach;
    - Adeiladu ar y trefniadau presennol lle y profwyd eu bod yn gryf, yn effeithlon ac yn effeithiol;
    - Mae angen i is-grwpiau/ffrydiau gwaith allu dwyn partneriaethau lleol a rhanbarthol i gyfrif;
    - Rhaid i'r strwythur llywodraethu gynnwys goroeswyr, cyflawnwyr, plant a phobl ifanc, cyflogwyr ac undebau llafur yn ogystal â gweithwyr rheng flaen mewn gwasanaethau cymorth;
    - Mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol gael cysylltiadau agos â chyrff atebol eraill fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Byrddau Cynllunio Ardaloedd Camddefnyddio Sylweddau;
    - Galw am is-grŵp / ffrwd waith sy'n cwmpasu plant a phobl ifanc ac ystyried a oes angen is-grwpiau / ffrydiau gwaith ar gyfer elfennau cyfansoddol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

55. Roedd y ymatebion yn cynnwys:
    - Pryder nad yw'n ymddangos bod yr is-grwpiau / ffrydiau gwaith arfaethedig yn cysylltu'n glir â'r amcanion, y dulliau gweithredu na'r egwyddorion – bydd angen esbonio hyn yn eu cylch gorchwyl;
    - Awgrymiadau ar gyfer is-grwpiau / ffrydiau gwaith ar gyfathrebu, hyfforddiant ac ymyrraeth / atal cynnar;

- Galwadau i osgoi "lladd drwy is-grwpiau" drwy gael un cynllun gwaith cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a phob is-grŵp / ffrwd waith yn gweithio tuag at nodau a rennir.

## Cwestiwn 11

**Ydych chi'n weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr, goroeswyr a chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?**

56. Roedd 41 o ymatebwyr wedi ateb YDW i'r cwestiwn hwn – cafwyd rhai ymatebion gan unigolion, roedd rhai yn ymatebion sefydliadol ac roedd rhai yn adborth gan grwpiau o sefydliadau.

## Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

57. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i BAWSO, Plant yng Nghymru, NSPCC, New Pathways, Cymorth i Fenywod Cymru a Chymru Ifanc am eu cefnogaeth wrth ddatblygu fersiwn pobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori.

58. Gofynnodd y ddogfen ymgynghori ar gyfer pobl ifanc bum cwestiwn, a oedd yn seiliedig ar y rhai yn y brif ddogfen ymgynghori. Dyma'r cwestiynau:
    - Ydych chi'n meddwl y bydd ein strategaeth yn helpu i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?
    - Pa broblemau, yn eich barn chi, a allai fod gennym o ran atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru?
    - Beth yw'r peth pwysicaf y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?
    - Sut y byddwn yn gwybod a yw ein cynlluniau i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gweithio?
    - A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru?

59. Yn ogystal â bod ar gael fel holiadur ar-lein, defnyddiwyd y cwestiynau hyn gan sefydliadau partner wrth ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc. Hoffem ddiolch i'r sefydliadau hynny a ymgymerodd â'r gwaith o hwyluso gweithdai neu grwpiau ffocws.

60. O ystyried y nifer fach o ymatebion i'r arolwg a fformat yr adborth o'r sesiwn ymgysylltu, rydym yn cyflwyno rhestr gyfunol o themâu cyffredin a godwyd gan bobl ifanc:
    - Mae angen i ddioddefwyr a goroeswyr gael eu trin â pharch gan y rhai mewn awdurdod a darparu gwasanaethau i'w cefnogi;
    - Creu awyrgylch lle mae dioddefwyr yn teimlo'n hyderus ynghylch siarad heb i'w hymddygiad eu hunain gael ei gwestiynu - atal "beio dioddefwyr";
    - Defnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol yn y ffordd gryfaf bosibl i fynd i'r afael â throseddwyr a gwneud i'r rhai a allai gyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol feddwl ddwywaith am eu hymddygiad;
    - Bydd annog a chefnogi adrodd am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ynghyd â monitro achosion a gofnodwyd yn well, yn rhoi syniad a yw pethau'n gwella;

- Rhagor o wybodaeth (gan gynnwys taflenni y gellir eu lawrlwytho) ynghylch pa gymorth sydd ar gael a'r ffordd o gael gafael arno;
- Gwell ymwybyddiaeth o arwyddion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer staff rheng flaen mewn addysg a gofal iechyd i nodi a chefnogi dioddefwyr yn gynharach;
- Gwell addysg ar berthnasoedd iach (o oedran cynnar) a chodi ymwybyddiaeth o bob agwedd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys o fewn gwahanol gymunedau diwylliannol a chrefyddol a lleoliadau addysg;
- Gweithio i fynd i'r afael ag agweddau dynion a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu hymddygiad ac yn effeithio ar fenywod a merched;
- Pryder am rôl y cyfryngau cymdeithasol o ran Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Mwy o gyllid i wasanaethau cymorth a'u cydgysylltu'n well;

## Ymateb Llywodraeth Cymru

61. Mae eich barn yn bwysig o ran cyfrannu at gynlluniau i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

62. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn – boed hynny drwy gyflwyno ymateb neu gymryd rhan yn y digwyddiadau ymgysylltu a hwyluswyd gan sefydliadau partner.

63. Fel dogfen gryno, efallai nad yw'r holl bwyntiau a wnaed yn yr ymatebion wedi'u hadlewyrchu'n llawn. Mae pob ymateb wedi cael ei ystyried a dylid nodi nad yw'r ffaith na chrybwyllir problemau neu awgrymiadau yn golygu eu bod wedi'u diystyru. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae'r ymatebion yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â chyflawni yn erbyn y Strategaeth. Bydd yr wybodaeth hon, ynghyd ag awgrymiadau a wnaed gan ymatebwyr, ar gael i'r rhai sy'n datblygu'r dull glasbrint o ddatblygu'r Strategaeth.

## Y camau nesaf

64. Rydym wedi defnyddio'r adborth yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad i ddiweddaru'r Strategaeth ddrafft. Bydd Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-26 yn cyd-fynd â chyfarfod cyntaf y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a fydd yn goruchwylio'r dull glasbrint o weithredu'r Strategaeth.

## Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Angela Gould
- Archwilio Cymru
- Barnardo's Cymru
- Bethany Anne Hillier
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cair UK Ltd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Caerdydd
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- Cymorth i Ferched Cymru
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin
- Carol O'Byrne
- Plant yng Nghymru
- Chwarae Teg
- Company Chemists Association
- Cyngor Tref Crughywel
- Partneriaid Cyfiawnder Troseddol (GLITEM, HMPPS a'r BCI)
- Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant
- Cymorth Cymru (gyda chefnogaeth Tai Pawb)
- Cyngor Sir Ddinbych
- Dewis Choice (Canolfan Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol, Prifysgol Aberystwyth)
- Dr Olga Jurasz, Y Brifysgol Agored (Ysgol y Gyfraith)
- Dr Omolade Femi-Ajao, Prifysgol Manceinion
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Estyn
- Ymateb cyfunol sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad
- Partneriaeth Ranbarthol VAWDASV Gwent
- CCAUC
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)
- Sefydliad Astudiaethau Alcohol
- IRISi
- Jane Finch
- Joan Filce
- Mark Davies
- Keith Brelstaff. Cynghorydd Tref
- Larry Stoter, Cynghorydd Gwirfoddoli, Cyngor ar Bopeth
- Anabledd Dysgu Cymru
- Llamau
- Merched Cymru
- Cyngor Sir Fynwy

- Y Mudiad Meithrin
- Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched, Cymru
- Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd  Port Talbot (VAWDASV)
- New Pathways
- Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru
- NSPCC
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Grŵp Gweithredu ar Atal Cam-drin
- Our Streets Now
- Pauline Gristwood
- Cyngor Tref Penarth
- Platfform
- Grŵp Pobl
- Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr
- Partneriaid Plismona yng Nghymru
- Cyngor Tref Pontardawe
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Heddlu De Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Cam wrth Gam
- Sue Warner
- Susan Cunningham
- Cyngor Abertawe
- Cymorth i Ferched Abertawe
- Sefydliad Anna Phillips
- The Company Chemist Association
- The Disabilities Trust
- The Drive Partnership
- Undeb y Prifysgolion a'r Colegau Cymru
- Thrive Women's Aid
- UNSAIN Cymru
- Unite
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cynulliad Merched Cymru
- Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cymorth i Ferched Cymru
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
-

Yn ogystal, gofynnodd 33 o ymatebwyr am aros yn ddienw ac ni roddodd 7 ymatebydd fanylion eu henw na'u sefydliad.